# YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL GWEINIDOGOL

## HYDREF 2024

| YMWELIADAU MEWNOL | |
|---|---|
| Dim | |
| **YMWELIADAU ALLANOL** | |
| 01 Hydref | **Ymweliad y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol â Ffrainc**<br>Teithiodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i Toulouse ar gyfer ymweliad deuddydd, gan ymuno â nifer o gwmnïau o Gymru yn ADS Toulouse. |
| 17 Hydref | **Ymweliad y Prif Weinidog â Dulyn**<br>Teithiodd y Prif Weinidog i Ddulyn ar gyfer cyfarfodydd gyda'r Arlywydd Higgins a'r Gweinidog Ryan TD. Roedd y diwrnod hefyd yn cynnwys cyfarfod bwrdd crwn gyda Siambr Fasnach Iwerddon Prydain a buddsoddwyr Gwyddelig. |
| 18 Hydref | **Prif Weinidog Cymru yn ymweld â Cork ar gyfer Fforwm Gweinidogol Cymru/Iwerddon**<br>Teithiodd y Prif Weinidog i Cork ar gyfer 4ydd Fforwm Gweinidogol Cymru/Iwerddon. Roedd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfod dwyochrog gyda'r Tánaiste, ymweliad â Champws Cyber Ireland ym Mhrifysgol Dechnolegol Munster, trafodaethau ar brosiectau ymchwil academaidd Iwerddon/Cymru a daeth y diwrnod i ben gyda chyfarfod y Fforwm i drafod y datganiad a rennir.<br>Fforwm Cymru-Iwerddon: ymweliad tramor cyntaf y Prif Weinidog \| LLYW.CYMRU |
| 25 Hydref | **Ymweliad y Dirprwy Brif Weinidog â Den Bosch, Yr Iseldiroedd**<br>Teithiodd y Dirprwy Brif Weinidog i'r Iseldiroedd i gymryd rhan yn y coffáu i nodi 80 mlynedd ers rhyddhau den Bosch a rôl y 53ain Gatrawd Gymreig wrth ryddhau'r ddinas yn ystod yr Ail Ryfel Byd. |
| 31 Hydref | **Lleisiau Eraill**<br>Teithiodd y Prif Weinidog i Aberteifi ar gyfer gŵyl ryngwladol Lleisiau Eraill i hyrwyddo Cymru. Agorodd y Prif Weinidog yr ŵyl, cymerodd ran mewn sesiwn Clebran gyda Philip King, cynhaliodd gyfarfod dwyochrog gyda Llysgennad Iwerddon i'r DU a chynhaliodd dderbyniad. |